COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONNAU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL PWYLLGOR 1 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 7 MAWRTH 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd Mr C Jones OBE – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| MC Clarke | DRW Lewis | Mr J Baker |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Mr P Clarke a/ac Mrs J Kiely

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |

45. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim.

46. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau, dyddiedig 10 Hydref 2018, fel cofnod gwir a chywir.

47. CANLLAWIAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL CLLLC I GYNGHORWYR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r canllawiau a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan Gynghorwyr.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor bod CLlLC yn cydnabod bod y cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rôl gynyddol bwysig ym myd gwleidyddiaeth a'u bod felly wedi paratoi canllawiau ar gyfer Aelodau Etholedig o ran defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol hynny. Nododd mai pwrpas y canllawiau yw galluogi Aelodau i fanteisio ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ond gan leihau'r risgiau cysylltiedig fel niwed i enw da a thorri'r cod ymddygiad. Mae canllawiau hefyd ar gael sy'n cynghori Aelodau sut i reoli neu roi gwybod am gamdriniaeth neu aflonyddwch ar-lein.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi canllawiau CLlLC.

48. LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON

Cyflwynodd y Swyddog Monitro Lythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2017/18 i'r Pwyllgor sy'n cynnwys manylion am berfformiad yr awdurdod yn erbyn perfformiad cyfartalog awdurdodau lleol yng Nghymru, a hefyd yr adroddiad sector cyhoeddus ehangach sy'n cynnwys gwybodaeth ystadegol ynghylch cwynion a gafodd sylw yn ystod y flwyddyn.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod nifer y cwynion a dderbyniodd yr Ombwdsmon mewn perthynas â'r Cygnor hwn wedi gostwng 10% yn y cyfnod hwn, o 44 i 40. Ni fu unrhyw adroddiadau er budd y cyhoedd yn erbyn y Cyngor a dim ond un achos yn unig aeth

ymlaen i gael ei ymchwilio ymhellach. Roedd cwynion ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol Plant wedi haneru o 12 i 6 yn ystod y flwyddyn aeth heibio, fodd bynnag, roedd cwynion yn erbyn yr Amgylchedd ac Iechyd Amgylcheddol wedi codi o 3 i 9.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

## 49. LLYFR ACHOSION YR OMBWDSMON A CHOD YMDDYGIAD

Rhoddodd y Swyddog Monitro adroddiad cryno o'r achosion yr oedd Swyddfa'r Ombwdsmon wedi ymgymryd â hwy rhwng Gorffennaf a Hydref 2018. Cyhoeddir Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn chwarterol ac mae'n cynnwys crynodeb o'r holl adroddiadau yn ogystal â detholiad o grynodebau sy'n ymwneud â datrys yn sydyn a setliadau gwirfoddol. Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r achosion hynny y mae gwrandawiadau gan Banel Dyfarnu Cymru o'r Pwyllgorau Safonau wedi'u cwblhau, a lle mae canlyniad y gwrandawiad yn hysbys am y cyfnod Hydref i Ragfyr 2018.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor bod yr Ombwdsmon yn mynychu cyfarfodydd chwarterol gyda Grŵp Swyddogion Monitro Cymru Gyfan a hefyd yn mynychu nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus i hybu gwaith swyddfa'r Ombwdsmon.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

## 50. MATERION BRYS

Dim

## 51. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd, dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol gan fod ynddynt wybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad Paragraff 12 Rhan 4 ac/neu Baragraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, i ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, gan ei fod yn ystyried yn yr holl amgylchiadau'n ymwneud â'r eitemau, fod lles y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn bwysicach na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr a grybwyllwyd.

## 52. CYMERADWYAETH COFNODION WEDI'U EITHRIO

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau, dyddiedig 10 Hydref 2018, fel cofnod gwir a chywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55